

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

Canllawiau ynghylch paratoi Adroddiad ar gyfer Cynhadledd Amddiffyn Plant

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf	Dyddiad: Mehefin 2015	Statws: Fersiwn Terfynol Cymeradwy
Awdur:	Tudalen 1 o 35	Dyddiad Adolygu: Mehefin 2018

I bwy mae'r canllawiau hyn?

Mae'r canllawiau hyn wedi'u paratoi ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant. Maent yn ategu'r hyfforddiant amlasiantaethol a gydlynir ar ran Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (BDPCT). Nid yw'r canllawiau a fformatau'r adroddiadau yn disodli unrhyw fformatau y cytunwyd arnynt o fewn asiantaethau, felly cyn gweithredu ymhellach, holwch y swyddog sy'n arwain ar ddiogelu plant o fewn eich asiantaeth ynghylch unrhyw drefniadau o fewn yr asiantaeth sy'n eich cyflogi / ble'r ydych yn gwirfoddoli.

Cyflwyniad

Dylai pob asiantaeth a wahoddir i fynychu Cynhadledd ddarparu adroddiad ysgrifenedig ymlaen llaw sy'n crynhoi eu gwaith gyda'r teulu, eu barn ynghylch gallu'r rhiant i ddiogelu'r plentyn ac i hybu ei les. Dylai adroddiadau ysgrifenedig fod ar gael i Gadeirydd y Gynhadledd 48 awr cyn y Gynhadledd. Mae'n arfer da i awdur yr adroddiad rannu, trafod ac egluro ei adroddiad â'r teulu o leiaf un diwrnod cyn y Gynhadledd. Rhaid i gynrychiolwyr asiantaethau gofio y bydd disgwyl iddynt gyflwyno eu hadroddiad a chrynhoi eu pwyntiau pwysicaf yn y Gynhadledd.

RHAID I BOB ADRODDIAD WAHANIAETHU RHWNG FFEITHIAU, ARSYLWADAU, HONIADAU A BARN. NI DDYLAI'R IAITH A DDEFNYDDIR O FEWN YR ADRODDIAD GYNNWYS JARGON NA THALFYRIADAU A DYLAI WNEUD SYNWYR I AELODAU'R TEULU A GWEITHWYR PROFFESIYNOL.

Bydd unrhyw arferion mewn perthynas â Chynadledau Amddiffyn Plant yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sydd ar gael yn:

www.awcpp.org.uk

Y Nodiadau Arweiniad Hyn

Mae'r nodiadau hyn wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad ag ymarferwyr ac asiantaethau. Nid yw'r adroddiadau yn Atodiadau 1, 2 a 3 wedi'u bwriadu i ddisodli unrhyw drefniadau sydd eisoes yn eu lle mewn asiantaethau unigol, ond yn hytrach, maent yn cynnig enghraifft i sefydliadau sydd heb fformat cytûn a chanllawiau i bawb ynghylch rhannu gwybodaeth.

Cyfrinachedd a'r Adroddiad

Mae'n hanfodol i'r broses gwneud penderfyniadau fod gweithwyr proffesiynol yn cyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol. Cyfnewid a rhannu gwybodaeth berthnasol yw hanfod cydweithio llwyddiannus rhwng asiantaethau er mwyn amddiffyn plant. Mewn achosion lle ceir honiad neu amheuan o gam-drin plant, bydd dyletswydd i rannu'r holl wybodaeth berthnasol. O dan yr holl amgylchiadau o'r fath, dylai amddiffyn y plentyn fod yn flaenoriaeth bennaf.

Dylai awduron gymryd yn ganiataol y bydd yr holl wybodaeth o fewn adroddiadau yn cael ei rhannu â holl fynychwyr y Gynhadledd, yn cynnwys yr aelod o'r teulu. Os bydd asiantaethau yn dymuno rhannu gwybodaeth sydd heb gael ei ddatgelu i'r teulu hyd yn hyn neu a allai arwain at berygl o niwed arwyddocaol i'r plentyn, dylid hysbysu'r Cadeirydd cyn y Gynhadledd.

Beth os byddaf yn dal heb gael ateb i rai cwestiynau?

Os bydd cwestiynau yn parhau heb eu hateb ar ôl darllen y canllawiau hyn a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant, dylech chi holi naill ai y swyddog sy'n arwain ar ddiogelu plant yn eich asiantaeth neu Gadeirydd y Gynhadledd.

Adroddiad i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol

Adran 1. Dyddiad y Gynhadledd

Dyma ddyddiad y Gynhadledd

Adran 2. Paratowyd yr Adroddiad gan

Bydd angen i chi nodi eich enw, eich asiantaeth a'ch rôl

Adran 3. Plant / Pobl Ifanc yn y Teulu.

Nodwch enw holl blant y teulu yn yr adran hon. Mae angen i aelodau'r Gynhadledd fod yn ymwybodol o'r holl blant sydd yn y teulu ac yn byw yn y cartref. Felly, gofynnir i bob asiantaeth gynnwys yn yr adran hon fanylion yr holl blant sy'n byw yn y cyfeiriad neu blant neu lysblant yr oedolion sy'n byw yn y cyfeiriad.

Adran 4. Rhieni / Perthnasau / Aelodau'r Cartref neu Bobl Arwyddocaol

Dylech gynnwys yn yr adran hon fanylion bob oedolyn sy'n rhiant neu'n ofalwr neu mewn perthynas ag unrhyw oedolyn sy'n byw yn y cyfeiriad. Bydd angen i chi hefyd gynnwys unrhyw ymwelwyr bobl arwyddocaol fydd yn ymweld â'r cyfeiriad a all fod â chysylltiad rheolaidd â'r teulu neu a all fod yn peri risg.

Mae'n bwysig iawn i chi hysbysu Cadeirydd y Gynhadledd cyn gynted ag y bo modd os ydych chi'n credu fod risgiau yn gysylltiedig â phresenoldeb unrhyw unigolion. Bydd y Cadeirydd yn gweithio gyda chi i benderfynu sut i reoli risgiau a pha un ai a oes lle i atal unigolyn rhag dod i'r Gynhadledd yn unol â'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant.

Adran 5. Pam mae eich asiantaeth yn gweithio gyda'r teulu

Yn yr adran hon, bydd angen i chi nodi'n glir pa aelod o'r cartref neu'r teulu rydych chi'n gweithio gydag ef neu hi a'r rheswm pam gwnaethoch chi gychwyn gweithio gyda'r teulu yn y lle cyntaf.

Adran 6. Beth yw diben gwaith eich asiantaeth gyda'r teulu?

Eglurwch y math o waith rydych chi'n ei wneud gyda'r unigolyn neu'r teulu. Dylech chi nodi unrhyw nodau neu ganlyniadau rydych chi'n gweithio i'w cyflawni a pha un ai a oes amserlen i'w cyflawni. Bydd yn ddefnyddiol gwybod a yw eich gwaith gyda'r teulu yn wirfoddol neu'n orfodol.

Adran 7. Crynodeb

Cynhelir Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol o ganlyniad i bryderon ynghylch amddiffyn plant, gan arwain at ymchwiliadau ac asesiadau amddiffyn plant. Bydd rhannu gwybodaeth yn digwydd cyn y Gynhadledd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch beth ddylai ddiogelu plentyn neu berson ifanc. Yr adroddiad hwn yw'r wybodaeth ysgrifenedig gyntaf a gyfnewidir â'r teulu a'r asiantaethau yn yr un lle ac ar yr un pryd.

Dylai'r holl adroddiadau i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol gynnwys crynodeb o wybodaeth berthnasol yr asiantaeth. Mae fformat cronolegol yn ddefnyddiol ynghyd ag unrhyw wybodaeth ynghylch hanes cymdeithasol sy'n helpu i gyfleu darlun o aelodau'r teulu a sut mae'r teulu'n gweithredu. Dylech gynnwys cryfderau a phryderon. Dylid ystyried anghenion pob plentyn unigol.

Ym mhob adroddiad gwaith cymdeithasol, rhaid cynnwys cronoleg a genogram sy'n dilyn fformat Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus Ddiwygiedig gyda'r adroddiad. Gall gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ddefnyddio dimensiynau'r Fframwaith Asesu a gynhwysir isod, a rhai o'r awgrymiadau a wnaed gan ymarferwyr o feysydd amrywiol a gyfrannodd at y canllawiau hyn. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y Fframwaith Asesu ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/childreninneed/?lang=en>

Datblygiad Plant

Nodwch yma unrhyw wybodaeth berthnasol sydd gennych ynghylch iechyd, datblygiad a lles y plentyn, gan gofio'r rheswm dros gynnal y gynhadledd.

Byddwch yn benodol a sicrhewch fod gennych chi ffocws pendant - ni fydd adroddiadau maith yn ddefnyddiol i waith y Gynhadledd bob tro. Er bod angen i chi gofio cynnwys cryfderau, mae'r un mor bwysig i chi amlygu anghenion a phryderon fel gall teuluoedd ddeall beth yw'r pryderon a beth sydd angen ei newid.

Bydd angen i chi gynnwys adran ynghylch pob plentyn unigol. Dyma'r meysydd perthnasol y dylid eu hystyried:

- Iechyd
- Addysg
- Datblygiad Emosiynol / Ymddygiad
- Perthnasoedd Teuluol a Chymdeithasol
- Hunaniaeth
- Cyflwyniad Cymdeithasol
- Sgiliau Hunanofal

Gallu Rhiant

Yn yr adran hon, bydd angen i chi ystyried gallu'r rhieni i ddarparu:

- Gofal Sylfaenol
- Diogelwch
- Sefydlogrwydd
- Anwyldeb Emosiynol
- Arweiniad a Therfynau
- Symbyliad

Cofiwch am y rheswm dros y pryder neu'r rheswm dros eich gwaith. Efallai bydd yn ddefnyddiol amlygu anghenion y dylid mynd i'r afael â hwy o fewn y cynllun.

Os byddwch yn paratoi adroddiad ar ran asiantaeth sy'n gweithio gyda'r oedolion, efallai byddwch yn dymuno ystyried y cwestiynau canlynol hefyd:

- Ers faint mae'r asiantaeth yn adnabod y teulu, y person ifanc neu'r plentyn?
- A gafwyd unrhyw bryderon blaenorol?
- Pa asesiadau eraill a gwaith camu i mewn arall sydd wedi'u gwneud a beth oedd y canlyniad?
- A yw eich asiantaeth wedi gwneud unrhyw ymholiadau i'r gofrestr?
- A oes unrhyw gamau gweithredu neu ddatblygiadau newydd sy'n berthnasol i'r achos?
- A oes gan unrhyw aelodau o'r teulu unrhyw salwch / cyflwr meddygol neu anableddau?
- Pa wybodaeth sydd gennych chi am ddatblygiad y plentyn neu'r gallu i fagu plant?
- Pa wybodaeth sydd gennych chi am amgylchedd y cartref?
- Beth wyddoch chi am gymuned neu rwydwaith cynnal y teulu?
- A yw'r teulu yn ymwneud yn sylweddol ag unrhyw grwpiau cymunedol / hobiau neu grwpiau crefyddol?
- A oes unrhyw ymyriadau cyfreithiol yn digwydd ar hyn o bryd neu'n cael eu hystyried?
- Pryd oedd y tro olaf y gwelsoch chi'r plentyn neu'r aelod o'r teulu a beth yw eich arsylwadau?
- Wrth adolygu gwybodaeth yr asiantaeth, a fu unrhyw newidiadau a beth yw arwyddocâd y newidiadau hyn i'r plentyn?

Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol

Dylech gynnwys yn yr adran hon unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Hanes y Teulu a Sut mae'n Gweithredu
- Teulu a rhwydwaith cefnogol ehangach
- Tai
- Cyllid / Incwm

- Gwaith / Astudiaethau
- Adnoddau Cymunedol – prosiectau / ymyriadau mae gan y teulu gysylltiad â hwy
- Integreiddio Cymdeithasol

Adran 8. Barn yr Asiantaeth ynghylch y Risg

Ystyriwch yr holl wybodaeth sydd gennych chi. Cofiwch ystyried effaith y risgiau ar ddatblygiad y plentyn. Weithiau, bydd yn ddefnyddiol ystyried cryfderau, risgiau ac anghenion. Ystyriwch gymhelliant rhieni i newid a'u hagwedd tuag at gydweithio ag asiantaethau. A ydych yn ystyried fod awydd go iawn i newid neu a ydych yn bryderus y gall rhieni fynegi awydd i newid ond nid oes ganddynt yr ymroddiad i wireddu hyn? Byddwch yn bendant ynghylch beth yw'r risgiau yn eich tyb chi a pha un ai a yw hyn yn golygu perygl y gallai niwed arwyddocaol barhau. A yw'r risgiau yn ymwneud ag?

Esgeulustod
Niwed Corfforol
Niwed Rhywiol
Niwed Emosiynol

Efallai byddwch yn ystyried fod mwy nag un math o risg. Efallai byddwch yn ystyried fod angen cynllun plant mewn angen (lle gall asiantaethau weithio gyda theulu trwy gydweithio â hwy i leihau pryderon) i gynnig dulliau diogelu digonol.

Adran 9. Trefniadau i rannu'r adroddiad â'r teulu a'r safbwyntiau a fynegir gan y teulu

Dro ar ôl tro, mae pobl ifanc a'u teuluoedd wedi mynegi'r farn fod Cynadleddau Amddiffyn Plant yn ymddangos yn sefyllfaoedd heriol iddynt. Rydym yn gwybod fod ystyried safbwyntiau teuluoedd yn hollbwysig i sicrhau ansawdd ein gwaith a'n heffeithiolrwydd wrth gyflawni ein nodau.

Nodwch yma beth yw safbwyntiau'r bobl ifanc a'u teulu a'r cynllun sydd gennych i rannu'r adroddiad â'r teulu, ac os nad yw'r adroddiad wedi cael ei rannu, nodwch y rhesymau dros hynny.

Os oes unrhyw aelod o'r teulu wedi gofyn i chi beidio cynnwys rhywbeth yn eich adroddiad yma, dylid trafod hynny â Chadeirydd y Gynhadledd.

Trafodwch â'r teulu ynghylch pwy fydd yn gofalu am blant ifanc tra byddant yn y Gynhadledd a rhowch wybod i'r teulu y gallant ddod â rhywun gyda hwy i'w cefnogi.

Rhaid i'r sawl sy'n gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc ystyried sut bydd y person ifanc yn cyfrannu at y Gynhadledd. Gan gofio anghenion a dymuniadau'r plentyn / person ifanc, mae unrhyw un o'r canlynol yn bosibl:

- Y person ifanc yn cyfrannu trwy fod yn bresennol a chael cefnogaeth. Bydd y cadeirydd yn gweithio gyda'r person ifanc a'r teulu i sicrhau fod hyn yn bosibl ac mor addas i'r plentyn ag y gellir ei sicrhau o fewn rheswm o fewn y gweithdrefnau amddiffyn plant.
- Bydd y person ifanc yn mynychu a bydd eiriolwr yn bresennol (bydd ar y gwasanaeth eiriolaeth angen atgyfeiriad cyn gynted ag y bo modd).
- Bydd y person ifanc yn gofyn i'r eiriolwr fynychu ar ei ran / ar ei rhan
- Bydd y person ifanc yn cyfrannu trwy rannu ei safbwyntiau â gweithwyr proffesiynol eraill
- Bydd y person ifanc yn cyfrannu trwy gwrdd â Cadeirydd cyn a / neu wedi'r Gynhadledd

Adran 10. Argymhellion / awgrymiadau'r asiantaeth ynghylch y cynllun amlinellol

Bydd yr aelodau yn datblygu'r cynllun yn y Gynhadledd. Mae'n ddefnyddiol sicrhau fod unrhyw argymhellion penodol sydd gennych chi yn cael eu cynnwys yn eich adroddiad. Mae fformat y cynllun amddiffyn plant a ddatblygir yn y Gynhadledd ac yn ddiweddarach mewn cyfarfodydd cynllunio plant mewn angen neu yng nghyfarfodydd y Grŵp Craidd wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Dylai'r argymhellion ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau.

Adroddiad i Gynadleddau Amddiffyn Plant Adolygu.

Diben pennaf rhannu gwybodaeth yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant Adolygu yw llywio penderfyniad yr asiantaeth ynghylch parhau i gadw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant neu beidio.

Wrth lunio safbwynt, dylai asiantaethau fod yn ystyriol o rai o'r gwersi sy'n seiliedig ar ymchwil ac adolygiadau cyhoeddedig a gwersi sydd wedi'u cadarnhau yn lleol gan is-grŵp Sicrwydd Ansawdd BDPCT. Mae egwyddorion allweddol y gwersi hyn yn cynnwys:

- Yr angen i osgoi'r rheol y dylid bod yn optimistaidd yn anad dim mewn achosion cymhleth lle gwelwyd gwelliannau bychan.
- I geisio osgoi ailgofrestru mewn achosion lle mae esgeulustod yn nodwedd o'r pryder, dylai'r offeryn asesu esgeulustod lywio penderfyniadau a wneir
- Dylai dadgofrestru gael ei lywio gan asesiad amlasiantaethol diweddaredig ar ffurf Asesiad Craidd
- Pwysigrwydd defnyddio herio proffesiynol yn adeiladol lle ceir gwahaniaethau barn

Mae llawer o'r egwyddorion a amlygir uchod mewn perthynas ag adroddiadau Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol hefyd yr un mor gymwys i adroddiadau Cynadleddau Amddiffyn Plant Adolygu.

Er mwyn sicrhau fod y Gynhadledd yn cael diweddariad ynghylch gwaith y Grŵp Craidd a'r Asesiad Craidd, mae adroddiadau argymelledig ar wahân wedi cael eu llunio ar gyfer asiantaethau a gweithwyr cymdeithasol.

Atodiad 1 - Adroddiad i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

ADRODDIAD I'R GYNHADLEDD AMDDIFFYFN PLANT GYCHWYNNOL

1. PARATOWYD YR ADRODDIAD GAN: *Enw a Rôl*

2. DYDDIAD Y GYNHADLEDD AMDDIFFYFN PLANT GYCHWYNNOL:

3. CYNHADLEDD YNGHYLCH:

Enw'r Plentyn / Person Ifanc	Dyddiad Geni ac Oedran	Cyfeiriad

4. RHIENI / PERTHNASAU / AELODAU'R CARTREF NEU BOBL ARWYDDOCAOL

Enw	Dyddiad Geni ac Oedran	Perthynas â'r plentyn neu'r plant / person ifanc	Cyfeiriad

5. RHESWM DROS GYNNAL Y GYNHADLEDD

6. BETH YW AMCAN GWAITH EICH ASIANTAETH GYDA'R TEULU?

7. CRYNODEB O WYBODAETH EICH ASIANTAETH A RANNWYD FEL RHAN O'R ASESIAD A'R YMCHWILIADAU AMDDIFFYN PLANT DIWEDDAR

Datblygiad Plentyn – Plentyn 1
Datblygiad Plentyn – Plentyn 2
Datblygiad Plentyn – Plentyn 3

Y Gallu i Fagu Plant
Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol

8. SAFBWYNT YR ASIANTAETH YNGHYLCH Y RISG I'R PLANT

--

9. TREFNIADAU I RANNU'R ADRODDIAD Â'R TEULU A'R SAFBWYNTIAU A FYNEGIR GAN Y TEULU

--

10. ARGYMHELLION / AWGRYMIADAU'R ASIANTAETH YNGHYLCH Y CYNLLUN AMLINELLOL

Datblygiad Plant

Beth sydd angen ei gyflawni? ⁱ	Sut fydd hyn yn digwydd? ⁱⁱ	Pwy fydd yn gyfrifol? ⁱⁱⁱ	Pryd fydd hyn yn cychwyn ^{iv}	Pryd fydd hyn yn gorffen ^v	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i

					gyflawni?^{vi}

Y Gallu i Fagu Plant

Beth sydd angen ei gyflawni?	Sut fydd hyn yn digwydd?	Pwy fydd yn gyfrifol?	Pryd fydd hyn yn cychwyn	Pryd fydd hyn yn gorffen	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?

Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol:

Beth sydd angen ei gyflawni?	Sut fydd hyn yn digwydd?	Pwy fydd yn gyfrifol?	Pryd fydd hyn yn cychwyn	Pryd fydd hyn yn gorffen	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?

Beth sydd angen ei gyflawni?	Beth ddylai ddigwydd er mwyn gwireddu hyn?	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?

Cronoleg

Genogram

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

Cynllun Amlasiantaethol

Amddiffyn Plant / Plant mewn Angen (dilëwch fel y bo'n briodol)

Enw:

Enw'r Plentyn / Person Ifanc	Dyddiad Geni:	Cyfeiriad

Dyddiad cychwyn:

Penderfyniad y gynhadledd:

Dyddiad Cofrestru:

Nodau'r Cynllun

Beth yw'r risgiau y mae'r cynllun hwn yn ceisio'u lleihau _____ ?

Pa ganlyniadau cyffredinol mae'r teulu a'r asiantaethau yn gobeithio eu cyflawni ar gyfer _____ ?

Beth ym marn y teulu a allai wneud y gwahaniaeth mwyaf yn eu bywyd i wneud pethau'n well i _____?

Beth mae _____ yn ystyried a allai wneud y gwahaniaeth mwyaf yn ei **fywyd/bywyd** i wella pethau **iddo/iddi**?



Beth sy'n llwyddo?

Gweithgareddau'r Grŵp Craidd

Gweithgareddau eraill y dylai'r Grŵp Craidd eu cydlynu	Dyddiad Cychwyn	Lle gwneir yr Adolygiad
<p><i>EE...Caiff yr Asesiad Craidd / Offeryn Asesu Esgeulustod ar gyfer yr Asesiad ei gwblhau er mwyn llywio'r Gynhadledd Nesaf</i></p>	<p><i>21.1.15 neu ddyddiad y Gynhadledd</i></p>	<p>Cyfarfodydd y Grŵp Craidd</p>
<p><i>Dylid mynd i weld James yn ei gartref o leiaf bob pythefnos</i></p>	<p><i>21.1.15 neu ddyddiad y Gynhadledd</i></p>	<p>Cyfarfodydd y Grŵp Craidd</p>
<p><i>Dylid rhoi cyfle i James gael eiriolwr i gynrychioli ei safbwyntiau yn y Gynhadledd nesaf. Angen anfon atgyfeiriad at eiriolwr.</i></p>	<p><i>21.1.15 neu ddyddiad y Gynhadledd</i></p>	<p>Cyfarfodydd y Grŵp Craidd</p>

Datblygiad Plant

Beth sydd angen ei gyflawni? ^{vii}	Sut fydd hyn yn digwydd? ^{viii}	Pwy fydd yn gyfrifol? ^{ix}	Pryd fydd hyn yn cychwyn ^x	Pryd fydd hyn yn gorffen ^{xi}	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni? ^{xii}

Y Gallu i Fagu Plant

Beth sydd angen ei gyflawni?	Sut fydd hyn yn digwydd?	Pwy fydd yn gyfrifol?	Pryd fydd hyn yn cychwyn	Pryd fydd hyn yn gorffen	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?

--	--	--	--	--	--

Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol:

Beth sydd angen ei gyflawni?	Sut fydd hyn yn digwydd?	Pwy fydd yn gyfrifol?	Pryd fydd hyn yn cychwyn	Pryd fydd hyn yn gorffen	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?

Pobl sy'n ymwneud â'r cynllun – Aelodau'r Grŵp Craidd

Enw ^{xiii}	Perthynas â _____ xiv	Sefydliad	Cytuno â'r Cynllun? ^{*xv}	Llofnod

** Os bydd unrhyw un yn anghytuno â'r cynllun, dangosir ei sylwadau isod*

Sylwadau

^{xvi}

Beth fydd yn digwydd os bydd pryderon, neu os na fydd y cynllun yn gweithio?

Dyddiad Cyfarfod y Grŵp Craidd

Dyddiad y Gynhadledd nesaf

Cadeirydd

Atodiad 3 - Adroddiad Gwaith Cymdeithasol i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Adolygu

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

ADRODDIAD GWAITH CYMDEITHASOL I'R GYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT ADOLYGU

1. PARATOWYD YR ADRODDIAD GAN: *Enw a Rôl*

2. DYDDIAD Y GYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT:

3. CYNHADLEDD YNGHYLCH:

Enw'r Plentyn / Person Ifanc	Dyddiad Geni ac Oedran	Cyfeiriad

4. RHIENI / PERTHNASAU / AELODAU'R CARTREF NEU BOBL ARWYDDOCAOL

Enw	Dyddiad Geni ac	Perthynas â'r plentyn neu'r plant / person ifanc	Cyfeiriad
-----	-----------------	--	-----------

	Oedran		

5. DYDDIAD(AU) COFRESTRU A CHATEGORI


6. CRYNODEB Y CADEIRYDD YN Y GYNHADLEDD DDIWETHAF AR XX

7. DIGWYDDIADAU ARWYDDOCAOL ERS Y GYNHADLEDD DDIWETHAF

27

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for text or content related to section 7.

8. SAFBWyNT A CHYFRANOgiAD Y PLENTYN

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for text or content related to section 8.

9. CRYNODEB O'R ASESIAD

Dyddiad cyflawni'r asesiad craidd diwethaf

Datblygiad Plentyn – Plentyn 1

Datblygiad Plentyn – Plentyn 2

Datblygiad Plentyn – Plentyn 3


Y Gallu i Fagu Plant

Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol


10. SAFBWyNT YR ASIANTAETH YNGHYLCH Y RISG I'R PLANT

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for handwritten notes or a drawing related to the section header above.

11. TREFNIADAU I RANNU'R ADRODDIAD Â'R TEULU

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for handwritten notes or a drawing related to the section header above.

12. SAFBWyNTIAU A FYNEGWYD GAN Y TEULU

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for handwritten notes or a drawing related to the section header above.

13. ARGYMHELLION / AWGRYMIADAU'R ASIANTAETH YNGHYLCH Y CYNLLUN AMLINELLOL

Datblygiad Plant

Beth sydd angen ei gyflawni? ^{xvii}	Sut fydd hyn yn digwydd? ^{xviii}	Pwy fydd yn gyfrifol? ^{xix}	Pryd fydd hyn yn cychwyn ^{xx}	Pryd fydd hyn yn gorffen ^{xxi}	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni? ^{xxii}

Y Gallu i Fagu Plant

Beth sydd angen ei gyflawni?	Sut fydd hyn yn digwydd?	Pwy fydd yn gyfrifol?	Pryd fydd hyn yn cychwyn	Pryd fydd hyn yn gorffen	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?

Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol:

Beth sydd angen ei gyflawni?	Sut fydd hyn yn digwydd?	Pwy fydd yn gyfrifol?	Pryd fydd hyn yn cychwyn	Pryd fydd hyn yn gorffen	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?

--	--	--	--	--	--

Atodiad 4 – Adroddiad yr Asiantaeth i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Adolygu

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

ADRODDIAD I'R GYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT ADOLYGU

1. PARATOWYD YR ADRODDIAD GAN: *Enw a Rôl*
2. DYDDIAD Y GYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT:
3. CYNHADLEDD YNGHYLCH:

Enw'r Plentyn / Person Ifanc	Dyddiad Geni ac Oedran	Cyfeiriad

4. RHIENI / PERTHNASAU / AELODAU'R CARTREF NEU BOBL ARWYDDOCAOL

Enw	Dyddiad Geni ac Oedran	Perthynas â'r plentyn neu'r plant / person ifanc	Cyfeiriad

5. PAM MAE EICH ASIANTAETH YN GWEITHIO GYDA'R TEULU?

--

6. BETH YW AMCAN GWAITH EICH ASIANTAETH GYDA'R TEULU?

--

7. DIGWYDDIADAU ARWYDDOCAOL ERS Y GYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT DDIWETHAF

--

8. CRYNODEB O WYBODAETH EICH ASIANTAETH MEWN PERTHYNAS Â DIGWYDDIADAU ERS Y GYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT DDIWETHAF

33

Datblygiad Plentyn – Plentyn 1

Datblygiad Plentyn – Plentyn 2

Datblygiad Plentyn – Plentyn 3

Y Gallu i Fagu Plant

Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol

9. SAFBWYNT YR ASIANTAETH YNGHYLCH Y RISG I'R PLANT

10. TREFNIADAU I RANNU'R ADRODDIAD Â'R TEULU A'R SAFBWyNTIAU A FYNEGIR GAN Y TEULU

--

11. ARGYMHELLION / AWGRYMIADAU'R ASIANTAETH YNGHYLCH Y CYNLLUN

34

Beth sydd angen ei gyflawni?	Beth ddylai ddigwydd er mwyn gwireddu hyn?	Sut byddwn yn gwybod fod hyn wedi'i gyflawni?
